# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Dyddiad/Amser:** 2 Tachwedd 2016, 12.00 - 2.00
**Lleoliad:** Y Senedd

## Cofnodion

1. Yn bresennol

   Roedd 27 o bobl yn bresennol, gweler y gofrestr atodedig.

2. Croeso gan y Cadeirydd

   Croesawodd Julie Morgan bawb i gyfarfod cyntaf y grŵp yn y Cynulliad newydd. Prif bwrpas y cyfarfod oedd ail-sefydlu'r grŵp. Eglurwyd hanes a phwrpas y Grŵp Trawsbleidiol o fewn strwythur Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hytrach na Llywodraeth Cymru.

   Fel Grwpiau Trawsbleidiol eraill, y mae'n agored i'r cyhoedd yn gyffredinol, ond yn fwy na hynny mae'n gwneud ymdrech arbennig i wneud yn siŵr bod Sipsiwn a Theithwyr yn rhan o'r grŵp, oherwydd bod angen i Aelodau'r Cynulliad gael gwybod beth yw barn sipsiwn a theithwyr am y materion sy'n effeithio arnynt.

   Eglurodd fod y Cynulliad yn cynnwys yr holl Aelodau Cynulliad etholedig ar draws Cymru a'u rôl yw dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Roedd Llywodraeth Cymru yn cynnwys dim ond nifer fach o Aelodau'r Cynulliad, ac roeddent yn gyfrifol am ddarparu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir i bobl Cymru, er enghraifft:

   - Addysg
   - Tai, gan gynnwys safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, ac
   - Iechyd

3. Ethol swyddogion
   1. Cynigiwyd y dylid penodi Julie Morgan yn Gadeirydd a derbyniwyd hyn yn ddiwrthwynebiad (Y cynigydd: Trudy Aspinwall, Eilydd: Kirby Jones)
   2. Cynigiwyd y dylid penodi Thomas Hendry (SEWREC) yn Ysgrifennydd a derbyniwyd hyn hefyd yn ddiwrthwynebiad (Y cynigydd: Julie Morgan, Eilydd: Sonia Dixon)

4. Eglurhad byr ar grwpiau trawsbleidiol a diben y grŵp llywio hwn

   Eglurodd y Cadeirydd, Julie Morgan ei bod yn Aelod Cynulliad dros Ogledd Caerdydd, a'i bod wedi cadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol ers ei sefydlu, a chyn hynny bu'n cadeirio'r Grŵp Trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr yn Senedd y Deyrnas Unedig. Dywedodd wrth yr aelodau mai braint iddi oedd bod yn Gadeirydd y Grŵp a'i bod wedi cyfarfod â phobl wych dros y blynyddoedd.

   Eglurodd fod y grŵp llywio ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol wedi cytuno y byddai o leiaf un aelod cymunedol yn cynorthwyo'r Cadeirydd i drefnu'r cyfarfod. Byddai Kirby Jones yn cyd-cadeirio'r cyfarfod â hi heddiw.

   Cyflwynodd Kirby Jones ei hun fel aelod cymunedol o Sir Benfro. Gweithiodd Kirby gyda Phrosiect Unity, ac roedd ganddi hanes hir o fod yn weithgar yn y gymuned ac o fod yn eiriolwr ar ran Sipsiwn a Theithwyr. Roedd hefyd yn aelod o'r Grŵp Llywio ar gyfer y cyfarfod hwn.

   Esboniodd Kirby fod y Grŵp Trawsbleidiol yn caniatáu i Aelodau'r Cynulliad ar draws y gwahanol bleidiau ddod at ei gilydd, gyda chynrychiolwyr o asiantaethau allanol a'r cyhoedd i rannu gwybodaeth am bwnc arbennig. Yn achos y Grŵp hwn, y pwnc oedd, y materion sy'n effeithio ar Sipsiwn a Theithwyr.

   Dywedodd Kirby mai'r Grŵp hwn oedd yn rhoi cyfle i sipsiwn a theithwyr sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn gwybod beth yw'r sefyllfa ar eu cyfer hwy.

   Eglurodd fod y rhan fwyaf o gyfarfodydd y Grŵp yn cael eu cynnal yng Nghaerdydd, oherwydd dyna yw lleoliad y Cynulliad, ond dywedodd fod aelodau'r Grŵp wedi gwneud ymrwymiad i fynd i gymunedau Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru. Roedd yr aelodau hefyd wedi gwneud ymrwymiad y byddai'r Grŵp yn trafod pethau y mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn nodi wrthym eu bod eisiau trafod.

   Am y rheswm hwnnw, mae'r Grŵp Trawsbleidiol wedi sefydlu grŵp llywio sy'n cynnwys 4 aelod o'r gymuned, o Gaerdydd, Casnewydd a dau aelod o Sir Benfro i helpu i drefnu'r cyfarfodydd, ond hefyd i 'weithredu' ar y materion a godir sy'n peri pryder, ac i roi adborth i gyfarfodydd yn y dyfodol.

5. Gwaith blaenorol y Grŵp Trawsbleidiol

   Nododd Julie bod Aelodau'r Cynulliad o amrywiol bleidiau gwleidyddol wedi ymrwymo i'r Grŵp Trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr. Roedd yn un o amodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ganiatáu i Grŵp Trawsbleidiol gael ei lunio. Roedd hi'n ddiolchgar am eu cefnogaeth.

Nododd Julie fod rhywfaint o'r gwaith a wnaed gan y Grŵp Trawsbleidiol yn y gorffennol yn cynnwys:

- Trafodaethau am gost uchel nwy, trydan a dŵr ar gyfer pobl ar y rhan fwyaf o safleoedd. Roedd Julie yn falch bod staff yn Llywodraeth Cymru wedi gweithredu ar y mater hwn ac wedi adrodd yn ôl i'r Grŵp Trawsbleidiol ar y trafodaethau a gawsant gydag awdurdodau lleol a chyflenwyr cyfleustodau. Roedd Julie yn gobeithio gweld gwelliannau yn y trefniadau ar gyfer cyfleustodau mewn safleoedd yn y dyfodol.
- Gwylnos ar risiau'r Cynulliad, i gofio am y Sipsiwn a gollodd eu bywydau fel rhan o'r Holocost Natsïaidd. Dywedodd Julie fod y digwyddiad hwn wedi bod yn wylnos deimladwy iawn o dan arweiniad sipsiwn a theithwyr, ac roedd yn cynnwys nifer o ddarlleniadau gan aelodau o'r gymuned. Daeth nifer fawr o Aelodau'r Cynulliad o bob plaid ac un o weinidogion y Llywodraeth i'r wylnos.
- Darparu safleoedd newydd ar draws Cymru - dywedodd y Cadeirydd y byddem yn gweld sut y byddai'r newidiadau i'r gyfraith Tai yng Nghymru yn effeithio ar Sipsiwn a Theithwyr

- Fel rhan o ymrwymiad y Grŵp Trawsbleidiol i gwrdd â chymunedau y tu allan i Gaerdydd, cynhaliwyd y cyfarfod ym mis Rhagfyr yn Sir Benfro, a thrafodwyd darpariaeth safleoedd gyda swyddogion Cyngor Sir Penfro.

6. Blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf.

Dywedodd y Cadeirydd fod tipyn o fwlch wedi bod rhwng cyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol eleni oherwydd etholiadau'r Cynulliad, ond roedd hi'n falch o fod wedi cael ei hail-ethol, a dywedodd fod yna nifer o Aelodau'r Cynulliad eraill sydd wedi cael eu hethol neu'u hail-ethol, sydd hefyd yn cefnogi'r Grŵp Trawsbleidiol.

Awgrymodd Julie fod angen i'r Grŵp Trawsbleidiol ystyried beth ddylai gael blaenoriaeth ar gyfer y 12 mis nesaf ac felly, hoffem ddefnyddio gweddill y sesiwn hon ar gyfer cynnal trafodaeth agored.

7. Cyfle agored i drafod materion

Trafododd yr Aelodau nifer o bynciau y maent yn teimlo y gallai'r Grŵp Trawsbleidiol eu hystyried:

- Safleoedd trosglwyddo a Mannau Aros a Drafodwyd. Teimlai rhai aelodau bod yr angen am lety dros dro wrth deithio wedi cael ei anwybyddu, a bod angen rhoi sylw iddo. Mae nifer o wahanol ffyrdd o ddarparu safleoedd trosglwyddo ar gael, sy'n amrywio o safleoedd trosglwyddo traddodiadol, safleoedd trosglwyddo dros

dro, i fannau aros a drafodwyd ymlaen llaw. Teimlai'r aelodau y dylid trafod yr ystod lawn o bosibiliadau oherwydd bod y manteision i sipsiwn a theithwyr, i'r cymunedau o'u cwmpas ac i awdurdodau lleol yn enfawr.

- Perthynas â'r Heddlu – maent yn anodd yn aml. Teimlai rhai aelodau fod angen gwelliant sylweddol, a chymysgedd o gamau gweithredu tymor byr i sicrhau gwelliannau ar unwaith, ynghyd â chamau gweithredu sy'n cael effaith hirdymor.
- Sesiwn pobl Ifanc - atgoffwyd yr aelodau eu bod wedi gwneud ymrwymiad i gynnal sesiwn benodol ar gyfer pobl ifanc
- Cyfarfod Gweinidogol – ystyriwyd bod cynnal cyfarfod gyda Carl Sergeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant newydd yn syniad da, a chredai rhai aelodau y byddai cael cyfarfod ymlaen llaw ag ef yn ddefnyddiol fel bod modd gwneud yn fawr o'n hamser gyda'r gweinidog.
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Ddeddf – ystyriodd yr aelodau sut y byddai anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu diwallu, ac a yw cyrff cyhoeddus yn cael eu barnu o ran a ydynt yn cynnwys Sipsiwn a Theithwyr yn eu cynlluniau. Efallai y byddai cynnal cyfarfod â Mark Drakeford, y Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol hefyd yn ddefnyddiol.
- Dylid ailadrodd y digwyddiad Coffa'r Holocost ym mis Ionawr.
- Cytunodd yr aelodau y dylai un o gyfarfodydd y Grŵp Trawsbleidiol gael ei gynnal yng Ngogledd Cymru.
- Daeth yr aelodau i'r casgliad hefyd y dylai'r Grŵp Trawsbleidiol wneud rhywfaint o waith i wella'r modd y caiff cymunedau Sipsiwn a Theithwyr eu cynrychioli yn y cyfryngau, drwy sicrhau sylw i ddigwyddiadau'r Grŵp, ond hefyd drwy geisio cael rhagor o sylw i straeon cadarnhaol sy'n codi ar draws y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru.